# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 1

CYFLWYNIAD

### 1 Trosolwg o'r Ddeddf

(1) Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ynghylch safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru.

(2) Yn y Ddeddf hon—

(a) mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trwyddedu safleoedd rheoleiddiedig etc. ac mewn cysylltiad â hynny,

(b) mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth i amddiffyn rhag troi allan o safleoedd gwarchodedig,

(c) mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch telerau cytundebau i osod cartrefi symudol ar safleoedd gwarchodedig,

(d) mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth y caiff awdurdodau lleol ddarparu safleoedd i gartrefi symudol a gwahardd gosod cartrefi symudol ar dir comin odani, ac

(e) mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth atodol a chyffredinol.

### 2 Safleoedd cartrefi symudol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf

(1) Yn y Ddeddf hon ystyr "safle rheoleiddiedig" yw unrhyw dir yng Nghymru y gosodir cartref symudol arno er mwyn i bobl fyw ynddo (gan gynnwys unrhyw dir yng Nghymru a ddefnyddir ar y cyd â thir o'r fath) heblaw—

(a) safle y mae Atodlen 1 yn darparu nad yw i fod yn safle rheoleiddiedig, neu

(b) safle gwyliau.

(2) Yn y Ddeddf hon ystyr "safle gwarchodedig" yw tir sydd—

(a) yn safle rheoleiddiedig, neu

(b) yn safle a fyddai'n safle rheoleiddiedig heblaw am baragraff 11 o Atodlen 1.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(3) Yn is-adran (1) ystyr "safle gwyliau" yw safle y mae'r caniatâd cynllunio perthnasol neu'r drwydded safle ar ei gyfer o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960—

(a) yn mynegi ei fod wedi ei roi neu ei bod wedi ei rhoi at ddibenion gwyliau yn unig, neu

(b) yn ei gwneud yn ofynnol bod adegau o'r flwyddyn pan na chaniateir gosod cartref symudol ar y safle i bobl fyw ynddo.

(4) Er mwyn penderfynu a yw safle'n safle gwyliau neu beidio, mae unrhyw ddarpariaeth yn y caniatâd cynllunio perthnasol neu yn nhrwydded y safle sy'n caniatáu gosod cartref symudol ar y tir i bobl fyw ynddo drwy gydol y flwyddyn i'w anwybyddu os awdurdodwyd y cartref symudol i'w feddiannu—

(a) gan y person sy'n berchennog y safle, neu

(b) gan berson a gyflogir gan y person hwnnw ond nad yw'n meddiannu'r cartref symudol o dan gytundeb y mae Rhan 4 yn gymwys iddo.

(5) Yn y Ddeddf hon ystyr "safle awdurdod lleol i Sipsiwn a Theithwyr" yw tir y mae awdurdod lleol yn berchen arno i osod cartrefi symudol arno sy'n rhoi llety i Sipsiwn a Theithwyr.

## 3 Perchnogion safleoedd

Yn y Ddeddf hon ystyr "perchennog", o ran unrhyw dir, yw'r person—

(a) y mae ganddo hawl i feddiannu'r tir, neu

(b) y byddai ganddo hawl i feddiannu'r tir heblaw am hawliau unrhyw berson arall o dan unrhyw drwydded neu gontract a roddwyd ar gyfer y tir (gan gynnwys trwydded neu gontract i osod neu i feddiannu cartref symudol yno),

yn rhinwedd ystâd neu fuddiant yn y tir, ond gweler hefyd adrannau 39(2), 42(7) a 55(2)(a).